



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 Rhif 1300 (Cy. 77)

2001 No. 1300 (W. 77)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Gwasanaeth
Iechyd Gwladol (Tâl Cosb)
(Cymru) 2001

The National Health Service
(Penalty Charge) (Wales)
Regulations 2001

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer gosod cosb sifil os bydd person, ar gam, yn methu â thalu un o ffioedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn perthynas â darparu cyffuriau a meddyginiaethau, triniaeth a chyfarpar deintyddol, gwasanaethau optegol, neu unrhyw gyfarpar arall. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod cosb sifil os bydd person yn cael taliad neu fudd-dâl tuag at gost un o ffioedd neu wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol nad oes gan y person hwnnw hawl i'w gael, megis talebau sbectolau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu brofion golwg di-dâl y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Yn rheoliad 2 darperir ar gyfer rhoi hysbysiad cosb i berson i fynnu bod y swm y mae'r person wedi methu â'i dalu yn cael ei dalu, ynghyd â thâl cosb ychwanegol. Nodir o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid i'r symiau hynny gael eu talu, a'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r hysbysiad cosb ei chynnwys. Yn rheoliad 3 nodir sut y mae'n rhaid i swm y tâl cosb sy'n daladwy gael ei gyfrifo.

Os nad yw'r swm sydd i'w dalu o dan yr hysbysiad cosb yn cael ei dalu o fewn y cyfnod a ragnodir, mae rheoliad 4 yn darparu bod rhaid talu swm pellach yn gosb ("gordal"). Mae'r rheoliad yn nodi sut y mae'n rhaid i swm y gordal gael ei gyfrifo.

The Regulations make provision for a civil penalty to be imposed where a person wrongly fails to pay a National Health Service charge in respect of the provision of drugs and medicines, dental treatment and appliances, optical services, or any other appliances. The Regulations also make provision for a civil penalty to be imposed where a person receives a payment or benefit towards the cost of a National Health Service charge or service to which that person is not entitled, such as National Health Service spectacle vouchers or free National Health Service sight tests.

Regulation 2 provides for a penalty notice to be issued to a person requiring payment of the amount that the person has failed to pay and an additional penalty charge. It sets out the period within which those amounts must be paid, and the information that the penalty notice must contain. Regulation 3 sets out how the amount of the penalty charge payable shall be calculated.

Regulation 4 provides that where the amount to be paid under the penalty notice is not paid within the period prescribed, a further sum by way of penalty ("surcharge") must be paid. The regulation sets out how the amount of the surcharge shall be calculated.

2001 Rhif 1300 (Cy. 77)

2001 No. 1300 (W. 77)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU****NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**Rheoliadau'r Gwasanaeth
Iechyd Gwladol (Tâl Cosb)
(Cymru) 2001The National Health Service
(Penalty Charge) (Wales)
Regulations 2001*Wedi'u gwneud**27 Mawrth 2001**Made**27th March 2001**Yn dod i rym**1 Ebrill 2001**Coming into force**1st April 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122B(1), (2) a (4), 126(4) a 127(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(a), a phob pŵer arall sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol yn y cyswllt hwnnw ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales in exercise of powers conferred on the Secretary of State by sections 122B(1), (2) and (4), 126(4) and 127(a) of the National Health Service Act 1977(a), and of all other powers enabling him in that behalf and now vested in the National Assembly for Wales(b), hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**Citation, commencement, interpretation and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Tâl Cosb) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

1.-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (Penalty Charge) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 1st April 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall –

(2) In these Regulations, unless the context otherwise requires –

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977; ac

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the National Health Service Act 1977; and

mae i “gordal” (“*surcharge*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 4.

“surcharge” (“*gordal*”) has the meaning given in regulation 4.

(3) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) These Regulations shall apply to Wales only.

(a) 1977 p.49. Gweler adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) (“Deddf 1990”), adran 26(2)(g) ac (i), i gael diffiniadau “prescribed” a “regulations”. Mewnosodwyd adran 122B gan adran 39 o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) (“Deddf 1999”). Diwygiwyd adran 126(4) gan adran 65(2) o Ddeddf 1990.

(b) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 122B(1), (2) a (4), 126(4) a 127(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).

(a) 1977 c.49. See section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c. 19) (“the 1990 Act”), section 26(2)(g) and (i), for the definitions of “prescribed” and “regulations”. Section 122B was inserted by section 39 of the Health Act 1999 (c.8) (“the 1999 Act”). Section 126(4) was amended by section 65(2) of the 1990 Act.

(b) The Functions of the Secretary of State under sections 122B(1), (2) and (4), 126(4) and 127(a) of the National Health Service Act 1977 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (SI 1999/672)

Cyflwyno hysbysiad cosb

2.-(1) Os bydd person yn methu â thalu unrhyw swm y cyfeirir ato yn adran 122B(1)(a) neu (b) o'r Ddeddf(a), caiff yr awdurdod cyfrifol gyflwyno hysbysiad cosb yn ei gwneud yn ofynnol, o fewn y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar ddyddiad anfon yr hysbysiad cosb, i'r person dalu'r swm hwn i'r awdurdod cyfrifol ynghyd â thâl cosb y penderfynir arno yn unol â rheoliad 3.

(2) Rhaid i hysbysiad cosb gael ei anfon drwy'r post i gyfeiriad hysbys diwethaf y person.

(3) Rhaid i'r hysbysiad cosb ddatgan –

- (a) enw'r person sy'n agored i dalu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu o dan yr hysbysiad cosb;
- (b) y swm sydd i'w adennill fel y'i crybwyllir yn adran 122B(1)(a) neu (b) o'r Ddeddf;
- (c) swm y tâl cosb, wedi'i gyfrifo yn unol â rheoliad 3 a'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r swm hwnnw'n gysylltiedig â hwy;
- (ch) swm y symiau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (b) ac (c), sef y cyfanswm y mae'n ofynnol ei dalu o dan yr hysbysiad cosb;
- (d) mewn perthynas â'r cyfanswm y mae'n ofynnol ei dalu o dan yr hysbysiad cosb –
 - (i) yr awdurdod cyfrifol y mae'n rhaid talu'r swm hwnnw iddo,
 - (ii) y cyfeiriad y mae'n rhaid anfon y swm hwnnw iddo,
 - (iii) y dulliau y gellir eu defnyddio i dalu, a
 - (iv) yn unol â pharagraff (1), erbyn pa ddyddiad y mae'n ofynnol i'r person dalu'r swm hwnnw i'r awdurdod cyfrifol;
- (dd) os yw'r person yn methu â thalu'r swm y mae'n ofynnol i'r person hwnnw ei dalu erbyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad cosb –
 - (i) y bydd yn rhaid i'r person dalu gordal i'r awdurdod cyfrifol hefyd, a
 - (ii) swm y gordal y mae'n rhaid i'r person hwnnw ei dalu, wedi'i gyfrifo yn unol â rheoliad 4(2); ac
- (e) nad yw person, oherwydd hysbysiad cosb, yn

Service of a penalty notice

2.-(1) Where a person fails to pay any amount referred to in section 122B(1)(a) or (b) of the Act(a), the responsible authority may serve a penalty notice requiring the person, within the period of 28 days beginning with the date on which the penalty notice was sent, to pay that amount to the responsible authority together with a penalty charge determined in accordance with regulation 3.

(2) A penalty notice shall be sent by post to the person's last known address.

(3) The penalty notice shall state -

- (a) the name of the person liable to pay the amount required to be paid under the penalty notice;
- (b) the amount recoverable as mentioned in section 122B(1)(a) or (b) of the Act;
- (c) the amount of the penalty charge calculated in accordance with regulation 3 and the goods or services to which the amount relates;
- (d) the sum of the amounts referred to in subparagraphs (b) and (c), which shall represent the total amount required to be paid under the penalty notice;
- (e) in relation to the total amount required to be paid under the penalty notice -
 - (i) the responsible authority to whom that amount shall be paid,
 - (ii) the address to which that amount shall be sent,
 - (iii) the methods by which payment may be made, and
 - (iv) in accordance with paragraph (1), the date by which that amount shall be paid to the responsible authority;
- (f) that if the person fails to pay the amount that person is required to pay by the date specified in the penalty notice -
 - (i) the person must also pay to the responsible authority a surcharge, and
 - (ii) the amount of the surcharge that person must pay, calculated in accordance with regulation 4(2); and
- (g) that a person is not liable by virtue of a penalty

(a) Mae adran 122B yn gymwys i ffioedd a thaliadau a all gael eu hadennill o dan adran 122(1) neu 122A o'r Ddeddf oddi ar berson mewn perthynas â darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau a restrir yn adran 122A(7); mewnosodwyd adran 122A gan adran 39 o Ddeddf 1999. Mae ffioedd o'r fath yn cynnwys ffioedd a all gael eu codi a'u hadennill am driniaeth ddeintyddol a ddarperir yn unol â chynlluniau peilot o dan adran 20 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46); gweler adran 39(3) o Ddeddf 1999.

(a) Section 122B applies to charges and payments which may under section 122(1) or 122A of the Act be recovered from a person in respect of the provision of those goods and services listed in section 122A(7); section 122A was inserted by section 39 of the 1999 Act. Such charges include charges which may be made and recovered for dental treatment provided in accordance with pilot schemes under section 20 of the National Health Service (Primary Care) Act 1997 (c. 46); see section 39(3) of the 1999 Act.

agored –

- (i) i dalu, ar unrhyw adeg, gymaint o unrhyw swm y cyfeirir ato yn adran 122B(1)(a) neu (b) o'r Ddeddf y mae'r person hwnnw yn agored i'w dalu ar y cyd ac yn unigol gyda pherson arall ag sydd wedi'i dalu bryd hynny, neu y mae llys wedi gorchymyn iddo gael ei dalu, gan y person arall hwnnw(a), neu
- (ii) i dâl cosb, neu ordal, os yw'r person hwnnw'n dangos na weithredodd ar gam, na heb unrhyw ddiffyg gofal, mewn perthynas â'r swm sydd i'w adennill fel y'i crybwyllir yn adran 122B(1)(a) neu (b) o'r Ddeddf(b).

Cyfrifo'r tâl cosb

3. P'un bynnag yw'r lleiaf o'r canlynol fydd y swm cosb –

- (a) £100, a
- (b) y swm y cyfeirir ato yn adran 122B(1)(a) neu (b) o'r Ddeddf wedi'i luosi â 5.

Gordal

4.-(1) Os bydd person yn methu â thalu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu o dan yr hysbysiad cosb yn unol â rheoliad 2(1), bydd yn agored i dalu i'r awdurdod cyfrifol swm pellach (y cyfeirir ato yn y rheoliadau hyn fel "gordal"), wedi'i gyfrifo yn unol â pharagraff (2).

(2) Swm y gordal fydd 50% o swm y tâl cosb (wedi'i dalgrynnu i lawr, yn ôl yr angen, i'r geiniog gyfan agosaf).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c)

D.Elis Thomas

27 Mawrth 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

notice -

- (i) to pay at any time so much of any amount referred to in section 122B(1)(a) or (b) of the Act for which that person is jointly and severally liable with another as at that time has been paid, or ordered by a court to be paid, by that other(a), or
- (ii) to a penalty charge, or a surcharge, if that person shows that he or she did not act wrongfully, or with any lack of care, in respect of the amount recoverable as mentioned in section 122B(1)(a) or (b) of the Act(b).

Calculation of penalty charge

3. The amount of the penalty charge shall be whichever is the smaller of -

- (a) £100, and
- (b) the amount referred to in section 122B(1)(a) or (b) of the Act multiplied by 5.

Surcharge

4.-(1) Where a person fails to pay the amount required to be paid under the penalty notice in accordance with regulation 2(1), he shall in addition be liable to pay to the responsible authority a further sum (in these regulations referred to as "a surcharge"), calculated in accordance with paragraph (2).

(2) The amount of the surcharge shall be 50% of the amount of the penalty charge (rounded down, where necessary, to the nearest whole penny.)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c)

27th March 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) Gweler adran 122B(7)(a) o'r Ddeddf.

(b) Gweler adran 122B(7)(b) o'r Ddeddf.

(c) 1998 p.38.

(a) see section 122B(7)(a) of the Act.

(b) see section 122B(7)(b) of the Act.

(c) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 1300 (Cy. 77)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth
Iechyd Gwladol (Tâl Cosb)
(Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 1300 (W. 77)

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

The National Health Service
(Penalty Charge) (Wales)
Regulations 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.00

W/210/06/01

ON

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090234-3



9 780110 902340